

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX
Dydd Iau, 24ain Tachwedd, 2016 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Hannah Williams (Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2016. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

To receive disclosures of personal interest from Members in accordance with the Code of Conduct.

Note:

1. Members are requested to identify the item number and subject matter that their interest relates to and signify the nature of the personal interest; and
2. Where Members withdraw from a meeting as a consequence of the disclosure of a prejudicial interest they **must** notify the Chairman when they leave.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd, 2016.

(Tudalennau 5 - 12)

**3. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 30 MEDI 2016
(CHWARTER 2)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Cynghorwyr am gyflawniad y Cyngor dros chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Medi 2016) o ran materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

(Tudalennau 13 - 28)

**4. CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR - BLAENORIAETHAU
BUDDSODDI**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet ynglŷn â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â chronfeydd un-tro sydd bellach ar gael yn sgîl cwblhau'r broses archwilio mewn perthynas â Datganiad o Gyfrifon 2015/16, ac yn benodol y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw diwygiedig a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Mawrth 2016.

(Tudalennau 29 - 36)

5. STRWYTHURAU PRIFFYRDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd, sy'n rhoi'r diweddaraf i Aelodau ynglŷn â threfniadau archwilio presennol ac arfaethedig mewn perthynas â Strwythurau'r Priffyrdd, ynghyd â cheisio cymeradwyaeth a, adnoddau ychwanegol i barhau i wella cyflwr ein hasedau.

(Tudalennau 37 - 50)

6. CYFLEUSTERAU CYNELU CŴN

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd sy'n nodi'r hynt hyd yn hyn mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfleuster cynelu yn y Fwrdeistref Sirol i Elusen Achub Anifeiliaid Hope Rescue, ynghyd â chais am ddod i benderfyniad ynglŷn â threfniadau darpariaeth cynelu yn y dyfodol ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

(Tudalennau 51 - 56)

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU CWM TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys Adroddiadau Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf a Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf ar gyfer 2015/16.

(Tudalennau 57 - 118)

8. MEITHRIN RHAN/CAPASITI Y GYMUNED

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n tynnu sylw'r Cabinet at y pwysgrwydd o hyrwyddo a chefnogi gweithgarwch yn y gymuned yn fodd o wella iechyd a lles cyffredinol yn ogystal â bodloni ysbryd a chyfeiriad Polisi Cenedlaethol.

(Tudalennau 119 - 124)

9. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

10. CWMNI CYNON VALLEY DISPOSAL COMPANY LIMITED A CHWMNI AMGEN RHONDDA LIMITED – CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, sy'n cynnig i Aelodau'r cyfle i archwilio'r datganiadau ariannol sydd i'w cyflwyno i Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol Cwmni Cynon Valley Disposal Company Limited a Chwmni Amgen Rhondda Limited (y 'Cwmnïau'), i'w gynnal am 10.30 a.m. ddydd Llun 12 Rhagfyr 2016 yng Nghanolfan Addysg cwmni Amgen, Bryn Pica, Llwydcoed, Aberdâr.

(Tudalennau 125 - 188)

11. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: A Morgan (Chair)
M Webber (Vice-Chair)
R Bevan
A Crimmings
M. Forey
(Mrs) E. Hanagan
G. Hopkins
M Norris
(Mrs) j. Rosser

Swyddogion: Chris Bradshaw, Chief Executive
Chris Lee, Group Director Corporate & Frontline Services
Gio Isingrini, Group Director Community & Children's Services
Paul Lucas, Director of Legal and Democratic Services
Tony Wilkins, Director of Human Resources
Colin Atyeo, Director of Corporate Estates & Procurement
Christian Hanagan, Service Director of Cabinet & Public Relations
Esther Thomas, Director of Education & Lifelong Learning
Jane Cook, Director of Regeneration & Planning
Paul Mee, Service Director of Public Health & Protection
Nigel Wheeler, Director of Highways & Streetcare Services